



POLISI A CHYNLLUN GWEITHREDU'R GYMRAEG

Adolygwyd y Polisi Ddiwethaf: Ebrill 2024

Cymeradwywyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr: Mai 2024

Adolygiad Nesaf: Mai 2025

(neu yn gynharach yn unol â diweddariadau i ddeddfwriaeth)

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Datganiad Polisi	3
Lefelau Presennol y Gymraeg	3
Safonau Gwasanaeth	4
Canlyniadau Sefydliadol	4
Cynyrchiadau a Pherfformiadau Hijinx	4
Delwedd Gorfforaethol a Brandio	4
Cyfathrebiadau Marchnata	5
Cyfathrebiadau Ysgrifenedig	5
Cyfathrebiadau dros y ffôn	6
Cyfathrebiadau Wyneb yn Wyneb	6
Technoleg Gwybodaeth	6
Safonau Gweithredu	6
Cyfathrebu Mewnol	6
Recriwtio a Staffio	6
Hyfforddiant a Chefnogaeth	6
Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a Chyfarfodydd	7
Adolygu a Monitro	7
Cynllun Gweithredu'r Gymraeg (gwaith ar y gweill)	7

Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn amlinellu ymrwymiad Theatr Hijinx i'r Gymraeg; sut yr ydym yn bwriadu deall, datblygu a chryfhau ei chynnwys ar draws pob agwedd o'n gwaith; a sut y byddwn yn adolygu a monitro ein cynnydd.

Datganiad Polisi

Nod Hijinx yw bodloni hawl pobl sy'n byw yng Nghymru i gyfathrebu yn unrhyw un o ddwy iaith swyddogol Cymru, Cymraeg a Saesneg.

Mae Hijinx wedi ymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal - fel y nodir yn Neddf Iaith Gymraeg 1993 ac yn unol â Safonau'r Gymraeg dan Adran 44 o Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 - a bydd yn sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Bydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod Polisi'r Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu yn cael eu gweithredu a bydd yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am weithredu o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr.

Mae'r Polisi hwn yn esbonio sut y bydd Hijinx yn gweithredu'r safonau ac egwyddorion hyn pryd bynnag y bydd yn ymarferol a phriodol.

Bydd holl aelodau'r staff yn ymwybodol o'u dyletswydd i weithredu'r polisi hwn a'i berthnasedd i'w maes gwaith hwy.

Trwy weithio gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, bydd Hijinx yn gweithio i dderbyn y Cynnig Gymraeg ac yn parhau i adolygu a gwella ein darpariaeth a diweddarau ein cynllun gweithredu i adeiladu ar ein cefnogaeth i'r Gymraeg.

Lefelau Presennol y Gymraeg

(Ar sail arolygon gwirfoddol Ebrill 2024)

Staff

- Mae gan Hijinx ddau aelod o staff sy'n rhugl yn y Gymraeg
- Mae 40% o'r tîm staff yn dynodi eu bod yn gallu darllen brawddegau syml ar bynciau pob dydd a siarad 'ychydig o Gymraeg'
- Dywed 8% eu bod yn gallu ysgrifennu, darllen a siarad 'cryn dipyn o'r Gymraeg'

Ymddiriedolwyr

- Mae 9% o'r Bwrdd yn siarad Cymraeg
- Gall 15% ddarllen a deall 'brawddegau syml ar bynciau pob dydd'

Gweithwyr Llawrydd

- 9% yn siarad Cymraeg yn rhugl / 12% yn gallu siarad cryn dipyn / 30% yn gallu siarad ychydig
Gall 25% o leiaf ddarllen a deall 'brawddegau syml ar bynciau pob dydd'
- Gall tua 18% ysgrifennu 'cryn dipyn o Gymraeg'

Actorion a chyfranogwyr Hijinx

Mae'r rhan fwyaf o'r artistiaid a chyfranogwyr sy'n dod at Hijinx wedi dod trwy addysg cyfrwng Saesneg, gan fod y rhan fwyaf o ddarpariaeth Addysg Anghenion Arbennig wedi eu darparu yn Saesneg yn hanesyddol.

Ein huchelgais yw gwella mynediad at yr iaith ar gyfer ein hactorion a chyfranogwyr. Byddwn yn gweithio tuag at hyn gyda thiwtoriaid a hwyluswyr trwy gyflwyno geiriau ac ymadroddion wrth gynhesu grwpiau ac mewn sesiynau ac yn ceisio partneriaethau creadigol i gefnogi hyn.

Safonau Gwasanaeth

Canlyniadau Sefydliadol

1. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg i gyrraedd cynulleidfaoedd a chyfranogwyr newydd, ac o fewn ein gweithgareddau
2. Fel sefydliad addysgu byddwn yn parhau i gefnogi staff i ddysgu Cymraeg a gweithio'n ddwyieithog
3. Byddwn yn cynyddu ymwybyddiaeth o ddiwylliant ac iaith Cymru trwy gyfnewid rhyngwladol

Cynyrchiadau a Pherfformiadau Hijinx

Trwy ein gwaith creadigol, byddwn yn rhoi llwyfan i'r Gymraeg mewn sesiynau hyfforddi a pherfformiadau.

Cynyrchiadau

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid creadigol i greu cynyrchiadau dwyieithog neu ddieiriau a all berfformio ar draws y wlad.

Trwy Wyl Undod mae Hijinx wedi ymrwymo i arddangos Cymru i'r byd, i gynulleidfaoedd cartref a thramor a'r artistiaid yr ydym yn eu gwahodd i berfformio. Bydd y rhwydweithio a'r cysylltiadau sy'n cael eu llunio trwy'r wyl, trwy greu, deialog a rhannu gwaith, yn parhau i gynyddu dealltwriaeth o iaith a diwylliant unigryw Cymru. Bydd cynnwys perfformiadau Cymraeg a dieiriau wedi ei gyfuno â marchnata dwyieithog a lleoli gweithgareddau mewn cymunedau Cymraeg yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhellach.

Hyfforddiant

Rydym wedi ymrwymo i gynnwys y Gymraeg yn ein hyfforddiant, ar lefel sy'n addas i bob grŵp. Er mwyn cefnogi hyn byddwn yn parhau i gynyddu ein gweithwyr llawrydd sy'n siarad Cymraeg.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Theatr Genedlaethol Cymru, i archwilio llwybrau i hyfforddiant a gyrfaoedd i artistiaid ag anabledd sy'n siarad Cymraeg.

Teithio

Mae teithio yn Ewrop ac yn rhyngwladol yn agwedd allweddol o'n hallbwn creadigol. Trwy ein gwaith gyda'r wasg a'r cyfryngau, ein rhyngweithio ar gyfnewid rhyngwladol, byddwn bob amser yn dweud ein stori 'Gwnaed yng Nghymru', gan gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Gymru fel gwlad ddwyieithog.

Delwedd Gorfforaethol a Brandio

Mae Hijinx wedi ymrwymo i gynnal ei ddelwedd gyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys ei gyfeiriad, logo, hunaniaeth weledol, llofnodion ac unrhyw wybodaeth safonol arall sydd i gael ei defnyddio. Bydd enw Hijinx yn cael ei ddefnyddio bob amser ac ni ddylid ei gyfieithu. Bydd llinellau hysbysebu a ddefnyddir i adnabod meysydd eraill o weithgareddau'r cwmni fel Gŵyl Undod Hijinx neu Academi Hijinx yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Defnyddir logos Cymraeg neu ddwyieithog pan fydd hynny'n addas.

Cyfathrebiadau Marchnata

Marchnata

Ym mhob cyfathrebiad marchnata a gynhyrchir gan Hijinx yn ymwneud â'n cynrychiadau a'n gwasanaethau rhoddir statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg – bydd deunyddiau'n cael eu creu yn ddwyieithog, gyda'r ddau'n cael eu cyhoeddi ar yr un pryd, naill ai yn ddwyieithog, neu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wahân. Bydd amser digonol ar gyfer cyfieithu yn cael ei ymgorffori yn yr holl amserlenni cynllunio.

Mae'r deunyddiau marchnata dan sylw yn cynnwys posteri, taflenni, rhaglenni, cylchlythyrau, arwyddion hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion.

Gall eithriadau i'r egwyddor hon ddigwydd pan fydd y deunydd wedi ei anelu at gynulleidfa sy'n byw tu allan i Gymru.

Wrth weithio gyda chwmnïau sy'n bartneriaid rydym yn annog mabwysiadu ein Polisi Cymraeg a byddwn yn darparu canllawiau i sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyson.

Cyfryngau Cymdeithasol a'r Wefan

Mae'r holl ddeunydd marchnata a chyfathrebu digidol a fwriadwyd ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog, gan gynnwys y wefan, e-daflenni a'r rhan fwyaf o'r deunydd cyfryngau cymdeithasol.

Mae gwefan Hijinx yn hollol ddwyieithog ac yn dangos y dewis iaith yn glir, gan adael i ymwelwyr newid i'w dewis hwy. Bydd tudalennau'n cael eu diweddarau yn y ddwy iaith ar yr un pryd.

Mae tri phrif fath o gynnwys yr ydym yn eu cyhoeddi ar ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol:

1. **Deunydd a gynhyrchir gan Hijinx** sy'n cael ei greu gennym ni ac sy'n bennaf neu yn gyfan gwbl yn ein geiriau ein hunain a gall gysylltu â chynnwys ar ein gwefan ni neu wefan trydydd barti.
2. **Deunydd a rennir o gyfrif trydydd barti**, a all gysylltu â chynnwys ar wefan trydydd barti.
3. **Cyfraniadau at sgysiau neu linyddau** nad ydyn nhw wedi eu dechrau gan Hijinx, a gallant fod â throsiant cyflym neu bwysigrwydd tymor byr

Bydd deunydd a gynhyrchir gan Hijinx yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd. Bydd deunydd a rennir yn cael ei rannu yn iaith y postiad gwreiddiol, fel y bydd cyfraniadau at sgysiau neu linyddau.

Y Wasg

Bydd yr holl ddatganiadau i'r wasg a hysbysiadau i'r cyfryngau yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog – Bydd amser digonol ar gyfer cyfieithu yn cael ei ymgorffori yn yr holl amserlenni cynllunio.

Bydd Hijinx bob amser yn ymdrechu i gael cynrychiolydd sy'n siarad Cymraeg ar gael i gynrychioli Hijinx ar y cyfryngau – o fewn cyfyngiadau ei wybodaeth neu brofiad.

Gwasanaethau Cyfieithu

Sylweddolir bod cyfieithu yn sgil arbennig, ac nad yw pawb sy'n siarad Cymraeg yn teimlo'n hyderus wrth gyfieithu testun i'w gyhoeddi. Felly dylai dogfennau, yn nodweddiadol, gael eu cyfieithu gan gyfieithydd arbenigol. Bydd amser digonol ar gyfer cyfieithu yn cael ei ymgorffori yn yr holl amserlenni cynllunio.

Ond, bydd cyfieithu mewnol gan aelodau o'r staff yn cael ei ddefnyddio ar gyfer deunydd 'syml', pan fydd hynny'n bosibl.

Cyfathrebiadau

Ysgrifenedig

Mae croeso i unrhyw un sy'n dymuno cyfathrebu gyda Hijinx wneud hynny yn y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ôl ei ddewis. Bydd pob llythyr ac e-bost a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei ateb yn Gymraeg. Pan na fydd gan Hijinx unrhyw staff ar gael i ateb gohebiaeth yn Gymraeg i safon addas, byddwn yn defnyddio cyfieithydd proffesiynol.

Bydd pob cyfarchiad cychwynnol a ffarwel yn bersonol, ar y ffôn ac mewn e-bost yn cael eu gwneud yn Gymraeg yn gyntaf a Saesneg yn ail.

Bydd holl lofnodion y staff ar e-bost yn ddwyieithog, y Gymraeg yn gyntaf a'r Saesneg yn ail, ac yn cynnwys logo a geiriad sy'n addas i lefel eu Cymraeg gan ddynodi bod croeso i ohebiaeth yn y ddwy iaith.

Bydd negeseuon allan o'r swyddfa yn ddwyieithog, bydd staff yn cael eu cyfeirio at dempledi ar-lein i lunio negeseuon dwyieithog ar gyfer hyn.

Cyfathrebiadau dros y ffôn

Mae Hijinx yn croesawu galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a bydd pob cyfarchiad cychwynnol ar y ffôn yn Gymraeg yn gyntaf a Saesneg yn ail. Os bydd y rhai sy'n galw'n dymuno parhau'r sgwrs yn Gymraeg ac nad oes siaradwyr Cymraeg ar gael, gofynnir i'r galwr a yw'n dymuno parhau yn Saesneg neu gael galwad yn ôl yn Gymraeg yn ddiweddarach.

Bydd yr holl negeseuon llais ar ffôn y brif swyddfa yn cael eu recordio yn ddwyieithog.

Cyfathrebiadau Wyneb yn Wyneb

Bydd yr holl staff yn cael laniard a/neu fathodyn sy'n addas i lefel eu Cymraeg. Bydd unrhyw un sy'n dymuno cyfathrebu wyneb yn wyneb â Hijinx yn gallu gwneud hynny, gan ddibynnu ar y staff sydd ar gael, byddwn yn annog a hyfforddi staff sy'n siarad Cymraeg ac yn dysgu i wneud y mwyaf o'u sgiliau i gynnig gwasanaeth mor gynhwysfawr ag sy'n bosibl mewn tîm bychan.

Technoleg Gwybodaeth

Mae gan yr holl aelodau o staff fynediad at liniaduron ac fe'u cyfeirir at yr adnoddau cyfieithu ar-lein, gramadeg a thempledi sydd ar gael.

Safonau Gweithredu

Cyfathrebu Mewnol

Bydd yr holl weithwyr sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hannog i gyfathrebu yn Gymraeg yn fewnol os byddant yn dymuno.

Gall staff ofyn am eu contractau a'u disgrifiadau swydd yn Gymraeg a Saesneg.

Mae'r tîm staff ar y cyd yn monitro sianel Slack 'Cymraeg' i helpu gydag ymholiadau Cymraeg 'syml' – mae cyfieithiadau mwy cymhleth yn cael eu cyflawni gan gyfieithydd arbenigol.

Recriwtio a Staffio

Bydd yr holl hysbysiadau swyddi yn cynnwys manylyn yn nodi bod y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer y swydd dan sylw.

Byddwn yn monitro sgiliau iaith y staff yn flynyddol er mwyn helpu i ddynodi anghenion hyfforddiant a datblygu, ac i sicrhau bod prosesau recriwtio yn y dyfodol yn gallu ymateb yn ôl hynny.

Hyfforddiant a Chefnogaeth

Mae staff yn cael eu hannog i ddefnyddio'r gweithle fel cyfle i wella eu Cymraeg, a rhoddir cefnogaeth i unrhyw staff sydd am ddilyn dosbarthiadau.

Bydd Hijinx yn rhoi cymhorthdal at gyrsiau i'r holl staff sy'n dymuno gwella eu sgiliau Cymraeg ac yn cefnogi staff i ddilyn hyfforddiant yn ystod oriau gwaith.

Bydd staff nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael hyfforddiant i ateb y ffôn yn ddwyieithog a sut i gyfeirio ymholiadau Cymraeg.

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a Chyfarfodydd

Oni bai bod cais gwahanol, bydd agendâu, cofnodion a dogfennau eraill ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cael eu cynhyrchu yn Saesneg yn unig. Bydd cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cael eu cyflwyno yn Saesneg fel arfer oni bai bod trefniant blaenorol wedi ei wneud. Mae'r ymddiriedolwyr wedi cytuno, os gofynnir ymlaen llaw, y gellir darparu cyfieithu ar y pryd naill ai gan y siaradwr neu trwy aelod arall o'r cyfarfod sy'n siarad Cymraeg. Penderfyniad ymarferol yw hwn ar sail y gydnabyddiaeth gan aelodau, cyn belled â bod ysbryd dwyieithrwydd yn cael ei werthfawrogi'n amlwg, nad yw defnyddio cyfieithu proffesiynol drud yn angenrheidiol.

Adolygu a Monitro

Bydd y polisi hwn a'i weithrediad yn cael eu hadolygu ar lefel y Bwrdd yn flynyddol.

Bydd Hijinx yn parhau i weithio trwy'r broses safon Cynnig Cymraeg – dan arweiniad y Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu, i lunio ein Cynllun Datblygu'r Gymraeg.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn atebol am gyflawni'r cynllun hwn trwy:

- Ei gyhoeddi ar ein gwefan
- Mesur ei effaith yn flynyddol
- Gwahodd cyngor a chyfarwyddyd pan nad oes gennym yr adnoddau yn fewnol

Cynllun Gweithredu'r Gymraeg

GWEITHRED		GAN BWY	ERBYN PRYD
SAFONAU GWASANAETH			
Pob cyfarchiad cychwynnol - yn bersonol, ar y ffôn ac mewn e-bost (yn Gymraeg yn gyntaf a Saesneg yn ail)	Pob un	Cynnal	
Atebion i ohebiaeth ysgrifenedig yn yr iaith a ddefnyddiwyd gan awdur y cyfathrebiad cychwynnol	Pob un	Cynnal	
Holl lofnodion y staff ar e-bost yn ddwyieithog (y Gymraeg yn gyntaf a’r Saesneg yn ail) ac yn cynnwys logo / geiriad sy’n addas i lefel eu Cymraeg	Pob un	Cynnal	
Bydd yr holl gyfathrebiadau cyhoeddus yn ddwyieithog, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, y wefan, datganiadau i’r wasg a deunyddiau marchnata	Marchnata	Cynnal	
Bydd holl gardiau busnes staff yn ddwyieithog, gyda’r Gymraeg yn gyntaf a’r Saesneg yn ail	Pob un	Cynnal	
Pan ofynnir, gwneir trefniadau i alwyr/ymwelwyr siarad â chydweithiwr sy’n siarad Cymraeg	Pob un	Cynnal	
SAFONAU GWEITHREDU			
Cynnydd trwy Cynnig Cymraeg a llunio Cynllun Datblygu’r Gymraeg	Marchnata / Prif Weithredwr	Mawrth 2025	
CEFNOGI STAFF AC YMDDIRIEDOLWYR I DDYSGU CYMRAEG A GWEITHIO’N DDWYIEITHOG			
Recriwtio rhagweithiol ar staff, ymddiriedolwyr, tiwtoriaid a hwyluswyr sy’n siarad Cymraeg	Pob un	Cynnal	
Anelu at 15% o’r Ymddiriedolwyr yn siaradwyr Cymraeg	Y Bwrdd	Mawrth 2025	
Hijinx i roi cymhorthdal at gyrsiau i’r holl staff sy’n dymuno gwella eu sgiliau Cymraeg a chefnogi staff i ddilyn hyfforddiant yn ystod oriau gwaith	Pob un	Cynnal	
Bydd yr holl staff yn cael laniard a/neu fathodyn sy’n addas i lefel eu Cymraeg	Pob un	Cynnal	
Staff yn gallu dewis derbyn eu contractau a’u disgrifiadau swydd yn Gymraeg neu Saesneg	Pob un	Cynnal	
Cynnal y sianel Slack i ymgysylltu’r staff â phynciau’n ymwneud â’r Gymraeg a chwestiynau cyfieithu	Pob un	Cynnal	
CYNYDDU’R DEFNYDD O’R GYMRAEG I GYRRAEDD CYNULLEIDFAOEDD A CHYFRANOGWYR NEWYDD YN EIN GWEITHGAREDDAU			
Cynyddu o ddau'r nifer o Diwtoriaid a Hwyluswyr Cynorthwyol ar raglenni Academi a Pawb sy’n siarad Cymraeg	Academi / PAWB	Mawrth 2025	
Gŵyl Undod 2024 – o leiaf un cynhyrchiad Cymraeg i gael ei drefnu	Theatr	Gorffennaf 2024	
Gŵyl Undod 2024 - o leiaf un darn theatr stryd dwyieithog neu dieiriau newydd i gael ei ddatblygu a’i berfformio yn Undod a theithio i wyliau eraill	Theatr	Medi 2024	

O leiaf 50 o artistiaid rhyngwladol i ymweld â Chymru ar gyfer Gŵyl Undod	Theatr	Gorffennaf 2024
Cysylltu ag awduron a chyfansoddwyr o Gymru ac ymgorffori testun a geiriau Cymraeg yng nghynyrchiadau Odyssey	Pob un	Rhagfyr 2025
CYNYDDU YMWYBYDDIAETH O DDIWYLLIANT AC IAITH CYMRU TRWY GYFNEWID RHYNGWLADOL		
Cynhyrchiad Meet Fred yn Ne Korea gyda’r Wooran Foundation	Theatr	Hyd 2024
Cydweithio rhwng Hijinx a Tanzbar Bremen i greu The Robots	Theatr	Medi 2024
MONITRO		
Archwilio’r lefelau o sgiliau Cymraeg yn ein cronfa bresennol o diwtoriaid, hwyluswyr cynorthwyol a gweithwyr creadigol llawrydd.	Academi / PAWB	Cynnal
Gweithredu monitro cydraddoldeb sgiliau Cymraeg yn holl randdeiliaid Hijinx, gan gynnwys actorion a chyfranogwyr	Pawb	Mawrth 2025
Cynhyrchu a chynnal cronfa ddata o ddewis iaith cyfranogwyr a’u teuluoedd/gofalwyr/gweithwyr cymdeithasol	Academi / PAWB	Mawrth 2025
Monitro’r cydymffurfio/gweithredu’r cynllun gweithredu hwn, gan gyfeirio cymorth lle mae ei angen	Prif Weithredwr	Bob 6 mis
Cofnodi’r cwynion a dderbyniwyd yng nghyswllt cydymffurfio â safonau’r Gymraeg	Pawb	Cynnal